Y CWLWM

EGLWYS UNEDIG GYMRAEG LLANDUDNO

MEDI - RHAGFYR 2009

" Deuwch ac Addolwn"

(10.30 y bore a 3.00 y prynhawn)

MEDI		
6	Y Gweinidog	(Cymundeb – Bore)
13	Parch John Lewis Jones, Bae Colwyn	
20	Parch Gwynfor Williams, Caernarfon	
27	Y Gweinidog	
HYDREF		
4	Y Gweinidog	(Cymundeb – Bore)
11	Parch Cledwyn Griffiths, Mynytho	
18	Y Gweinidog	
25	Parch E. Trefor Jones,Llandudno	
TACHWEDD		
1	Y Gweinidog	(Cymundeb – Bore)
8	Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam	
15	Parch J. Roger Roberts, Llandudno	
22	Y Gweinidog	
29		
RHAGFYR		
6	Y Gweinidog	(Cymundeb – Bore)
13	Parch Ieuan Lloyd, Llanfairpwll	
20	Gwasanaeth Nadolig yr Ifanc (Bore yn unig)	
27	Y Gweinidog	(Bore un unig)

Croeso cynnes iawn i chi i gyd

CYFARCHIAD

Rhiwledyn
Craigside
Llandudno

Awst 2009

Annwyl Gyfeillion,

Anfonnaf atoch fy nghofion wrth gyflwyno y rhifyn diweddaraf o'r Cwlwm. A hithau yn ganol Gorffennaf fe fyddaf o fewn ychydig yn cychwyn ar fy ngwyliau Haf. Fe fyddaf bob amser yn edrych ymlaen at ychydig seibiant, ac un rheswm arbennig am hynny yw fy mod yn hoff o bysgota. Fe ddechreuais yn bedair neu bump oed a dwi'n dal ati. Mi ges y 'clwy sgota' yn ddrwg iawn a tydi o ddim yn gwella o gwbwl! Dros y blynyddoedd rydw i wedi pysgota mewn llawer o wahanol afonydd a llynnoedd yma yng Nghymru, ac ambell un yn Lloegr a'r Alban. Mae llawer o wahaniaeth rhwng gwahanol lynnoedd ac afonydd a'i gilydd. Maent yn gwahaniaethu yn ôl y tymor, y tywydd, a pha bryfetach sydd ar y dŵr. Hynny yw, y mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar bysgota, a tydi un diwrnod byth yn union fel y llall. Ond mae un peth bob amser yr un fath. Ddaw y pysgod byth ata i, rhaid i mi fynd at lyn neu afon i chwilio amdanynt hwy.

Pan alwodd yr Iesu ei ddisgyblion dywedodd ei fod am eu gwneud yn 'bysgotwyr dynion'. A chyn esgyn yn ôl at ei Dad Nefol, fe roddodd gomisiwn iddynt – "Ewch a phregethwch yr Efengyl i'r holl fyd". Tybed ydi'r Eglwys yn cofio hynny ? Bu'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn gyfnod o ddiwygiadau rheolaidd yng Nghymru, a'r Capeli yn llenwi ac ail-lenwi yn gyson. Ond ers canrif bellach ni welwyd diwygiad, ac fe giliodd a lleihaodd y cynulleidfaoedd. Yn raddol hyd y pum a'r chwedegau, ac yna yn gyflymach a chyflymach, fel bellach bod dwy neu dair cenhedlaeth heb fawr neu unrhyw gysylltiad â'r Eglwys na'r ffydd Gristnogol. Efalle bod y pysgod wedi dod at yr Eglwys yn ystod yr oes aur, ond bellach tydi hynny yn sicr ddim yn wir. Yn anffodus anghofiodd yr Eglwys ei chomisiwn i bysgota ynghyd â'r gallu a'r awydd i bysgota. 'Rydym yn dal i ddisgwyl i bobol ddod atom ni yn hytrach nac yn chwilio amdanynt.

Darllenais yn ddiweddar am Weinidog yn anfon aelodau ei Eglwys allan i'r clybiau a'r tafarnau i chwilio am bobl. "De ni wedi dod i ymddiheuro", medde nhw, "ddwy fil o flynyddoedd yn ôl anfonodd Iesu yr Eglwys allan i'r byd i bregethu yr Efengyl, ond hyd yma ryde ni wedi bod yn disgwyl i chi ddod atom ni".

Mae rhyw dair miliwn o bysgotwyr ym Mhrydain, dyma'r hobi sydd a mwyaf o bobol yn ei ddilyn. Ond mae mwy o addolwyr ar y Sul na hynny, hyd yn oed pe bai pob pysgotwr wrthi yr un pryd. Mae rhyw 5 i 6 y cant o'r boblogaeth yn addoli yn rheolaidd, rhyw un ym mhob ugain o'r boblogaeth. 'Rydym yn dal i fod y gymdeithas fwyaf ym Mhrydain.

Un o'r disgyblion cyntaf oedd Andreas, a phan gredodd yn Iesu Grist fe aeth i ddweud wrth ei frawd Simon. Medde'r hanes "Daeth ag ef at Iesu". Y brawd bach yn pysgota ac yn dal un mawr, ei frawd hŷn Simon Pedr, a ddaeth nid yn unig yn ddisgybl ond yn un o'r rhai amlycaf erioed. Pe bai pob un ohonom yn gallu perswadio un person arall i ddod i oedfa, fe fydde'r gynulleidfa yn dyblu.Pe bai y rheini yn dod yn aelodau, fe fyddai'r Eglwys yn tyfu'n sylweddol. Beth am roi tro ar bysgota eleni a cheisio ennill pobol i Iesu Grist. Mae arnynt ei angen a mae o eisio eu cymdeithas hwythau. Ein cyfrifoldeb ni yw ei gyflwyno iddynt. Pob hwyl ar bysgota neu genhadu.

Cofion annwyl a phob bendith .

Dafydd.

LLOFFION O'R FESTRI

DIACONIAID / BLAENORIAID Y MIS

Medi

Aled Morgan Evan W. Evans Gwilym Williams
Dyfed Elias John Lewis Jones John Arfon Jones
Mai Owen

Hydref

R. Gwynfor Roberts Idris Davies Chris Griffiths
Gwilym C.Williams Myra Owen Gwyddfid Davies

Tachwedd

Aled Morgan Evan W. Evans Gwilym Williams
Mai Owen Dyfed Elias John Lewis Jones
John Arfon Jones

Rhagfyr

R. Gwynfor Roberts Idris Davies Chris Griffiths
Gwilym C.Williams Myra Owen Gwyddfid Davies

CYMDEITHAS PAWB

Llywydd	Dafydd Rees Roberts
Is – Lywydd	Hywel Williams
Ysgrifenyddion	Trefor a Beryl Lewis
Trysorydd	Chris Griffiths
Is – Drysorydd	Gwyddfid Davies

Cyfarfodydd ar Nos Lun am 7.00 o'r gloch yn Festri Seilo

12 Hydref Côr Bro Gwerfyl (Margaret Edwards)

26 Hydref Gareth Owen, Eglwys Bach "Cwys fy Nhad"

9 Tachwedd Edward Morus Jones, Llandegfan "Sgwrs a Chân"

23 Tachwedd Hawl i Holi Cadeirydd : Lona Jones

7 Rhagfyr Naws y Nadolig yng nghwmni Dafydd Rees Roberts, John Lewis Jones a Beryl Jones

CYFARFOD DEFOSIYNOL

Nos Lun am 7.00 o'r gloch (ar yn ail â Chymdeithas Pawb)

Dyddiadau: 19 Hydref (pnawn Llun)

19 Hydref (Nos Lun) Cyfarfod Pregethu Peniel

2 Tachwedd

16 Tachwedd

30 Tachwedd

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Mae'r Eglwys yn ddyledus i Gymdeithas y Chwiorydd am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, trwy'r amrywiol weithgareddau a gynhelir. Dyma nodi'r cyfarfodydd ar gyfer y tymor nesaf.

SWYDDOGION : Cadeirydd a Thrysorydd – Margaret Griffiths

Ysgrifennydd - Laura Roberts

Cyfle i Bawb am Baned a Sgwrs!

Bore Coffi – Bore Iau 3 Medi

Bore Coffi - Bore Iau 1 Hydref

Bore Coffi - Bore Iau 5 Tachwedd

Bore Coffi - Bore Iau 3 Rhagfyr

Cyfarfodydd Prynhawn y Chwiorydd

Pnawn Iau, 15 Hydref

Pnawn Iau, 19 Tachwedd

Mae rhaglen hynod o ddiddorol wedi cael ei threfnu ar gyfer y cyfarfodydd prynhawn. Mae cyfle i bawb gymdeithasu yn y boreau coffi, a chyfle i chwithau'r chwiorydd gael cwmniaeth eich gilydd yn y prynhawn.

YR YSGOL SUL

'Rydym wedi cael blwyddyn hapus iawn, pawb yn cydweithio'n dda, ac er nad yw nifer y plant wedi cynyddu, mae'r criw bach sy'n dod yn eitha selog. Efallai mai dyma un o'r pethau penodol y gallem weddïo drosto, sef bod teulu brwdfrydig Cristnogol yn ymaelodi gyda ni yma yn yr Eglwys Unedig.

'Rydym fel athrawon yn ddiolchgar iawn i'r Cyd-Gyngor am ein cwpwrdd newydd, gan ei fod wedi gwneud byd o wahaniaeth i ni. Mae cymaint mwy o le ar ôl symud y byrddau bach oedd yn dal y bocsus adnoddau.

Y Gymanfa: Buasech yn falch iawn o'r criw bach wrth iddynt ddechrau'r Gymanfa yn Hebron ddechrau Gorffennaf, gan fod pawb yn eu canmol.

Y Trip: Cafwyd tywydd perffaith ar gyfer y trip i Gelli Gyffwrdd ar ddiwedd blwyddyn yr Ysgol Sul. Daeth 15 o blant ac 16 o oedolion. Cawsom amser wrth ein bodd yno. Bydd y lluniau yn profi gymaint o hwyl a gawsom gyda'n gilydd.

Julius: Cawsom 'surprise' bendigedig rai wythnosau yn ôl, pan gyrhaeddodd swp o lythyrau i'r plant oddi wrth Julius. 'Roedd wedi mynd i'r drafferth i sgwennu o leiaf 4 llythyr gwahanol i'r plant. Fe gynhwysir cyfran ohonynt cyn diwedd Y Cwlwm. Dyma grynodeb o'r un cyffredinol a dderbyniodd Hazel:

> *"On receiving your letters I felt so treasured inside me. Your letters were so full of caring and love that I had never experienced throughout my life besides Mr. Roberts and Tora. Please send my greetings to all the Church members, that I love them, and that it is through them that I have stood to fight the devil's hazardous plans for my future. May God bless you all with love from your boy Julius"*

Edrychwn ymlaen i gael cwmni Iorwerth a Tora yn nes ymlaen yn y flwyddyn, pryd y cawn gyfle i holi mwy am hynt Julius.

Ar ran athrawon yr Ysgol Sul gallwn ond diolch yn ddiffuant iawn i chi fel aelodau am eich haelioni tuag atom, a'ch cefnogaeth barod i bob dim yr ydym yn ei wneud.
Paned , Teisen ac Adloniant: Ar ddiwedd tymor yr haf, daeth cynulleidfa niferus i'r festri i gefnogi'r Ysgol Sul. Cawsant baned a theisen cyn mwynhau adloniant amrywiol gan y plant. Braf oedd gweld Siriol, un o'n pobl ifanc, mor barod i arwain y pnawn a chymryd rhan mewn dull hwyliog a chartrefol. Braf hefyd oedd cael cwmni Elena o Seville, sef wyres fach annwyl Evan a Dilys Evans. 'Roedd pawb wedi dotio ei chlywed yn llefaru mewn Sbaeneg ac yn sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg.

Cafodd y gynulleidfa gyfle i wrando ar y cyflwyniad a roddodd y plant mor rhagorol yn Gymanfa'r Plant eleni, gyda'r rhai lleiaf yn mwynhau cyfeilio ar yr offerynnau taro, ac yna'n canu eu hoff emynau yn gyhoeddus am y tro cyntaf – tipyn o fenter iddynt! Yna cafwyd nifer o eitemau amrywiol gan y plant hŷn, o ddawnsio disgo i arddangos symudiadau Karate, ynghyd â dweud jôcs, llefaru,canu, chwarae'r piano a'r gitar – tipyn o gymysgfa!

Cawsom gyfle wrth gloi'r prynhawn i ddangos ein diolch diffuant i Anti Lora, oherwydd eleni mae wedi cyflawni deugain mlynedd o wasanaeth i'r Ysgol Sul fel athrawes addfwyn a diymhongar (gan gynnwys y blynyddoedd lawer yn Eglwys Deganwy Avenue). I nodi'r achlysur a'i gwaith diflino, cyflwynwyd rhodd iddi ar ran yr Ysgol Sul gan ein Gweinidog, y Parch Dafydd Rees Roberts. Mae Lora yn un o dïm o athrawon yr Ysgol Sul Unedig ac wrth ddiolch iddi o waelod calon, edrychwn ymlaen iddi barhau i gydweithio'n hapus gyda ni er llwyddiant yr Ysgol Sul. 'Rydym yn dra diolchgar am gefnogaeth diflino'r rhieni ac am goginio gymaint o deisennau ar gyfer y tê p'nawn! Diolch o galon i aelodau'r Eglwys a ffrindiau am eu haelioni tuag atom, ac wrth gwrs i'r plant, nid yn unig am eu parodrwydd i berfformio, ond am eu brwdfrydedd a'r hwyl a gawsom yn eu plith yn ystod y prynhawn difyr hwn!

Rhodd o Feibl i'r Eglwys Unedig
Dymunwn ddiolch i Gareth Pritchard am ei garedigrwydd yn rhoi Beibl yn rhodd i'r Eglwys. Bydd yn cael ei neilltuo yn benodol ar gyfer yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iawn Gareth.

Gwefan Yr Eglwys Unedig: Erbyn hyn mae rhan helaethaf o Wefan yr Eglwys Unedig wedi'i pharatoi. Mae ein diolch a'n gwerthfawrogiad o lafur Dylan Parri yn fawr iawn. Mae wedi golygu oriau o waith i'w pharatoi. Cyfeiriad y Wefan yw: **www.seilollandudno.co.uk**
Bydd yn cael ei diweddaru yn achlysurol pan fydd rhifyn newydd o'r Cwlwm yn ymddangos.

Gwersi Cyfrifiadurol: Fel y gwyddoch mae gennym nifer o gyfrifiaduron at wasanaeth yr Eglwys erbyn hyn. Mae rhai aelodau wedi mynegi'r awydd i gael gwersi a defnydd ohonynt. Fe geisiwn symud ymlaen gyda hyn yn ystod mis Medi. Rhowch wybod i'r swyddogion os ydych â diddordeb.

Gweithiwr Ieuenctid i Landudno: Erbyn hyn penodwyd Gweithwraig Ieuenctid i weithio ymysg y plant a'r ifanc, mewn Cynllun ar y cyd gan Eglwysi Llandudno. Mae Sophie Ponsford eisoes wedi cychwyn ar ei gwaith. Mae'r Ganolfan ar gyfer y gwaith a neilltuwyd gan Ystâd Mostyn wedi ei leoli yn 18 Stryd Madoc, Llandudno. 'Rydym yn gobeithio yn fawr y bydd Sophie yn dysgu Cymraeg yn fuan. Dymunwn bob llwyddiant ar ei gwaith yn ein plith.

Y CYD-GYNGOR
Mae'r Cyd-Gyngor wedi bod yn brysur yn ymdrin â gwahanol agweddau o waith yr Eglwys yn berthnasol i'r adeiladau. Y gwaith pwysicaf yn ystod y mis nesaf fydd ail doi to y festri a'r tŷ capel. 'Rydym wedi bod yn hynod lwcus i sicrhau grantiau ar gyfer y gwaith.

Detholion o Lythyrau Julius i blant yr Ysgol Sul
"Dear Ilid, Morgan and Alys,
Helo, How are you? Let me hope you are fine. I am fine also. Mr. Roberts has visit me with all your greeting, which has made me to feel just awesome. Before his visit I was just struggling to cope with my class performance that I had started.
We will soon enter the rainy season. In the holiday my little brother and I enjoy playing football. He is better than me, as I enjoy riding. Let me hope that you are also enjoying Wales. I would like to see you one time in Uganda.
Bye Bye,
Your boy, Julius.